Hawdd ei ddeall

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Adroddiad Blynyddol

Beth ddigwyddodd rhwng 2020 a 2021

Ysgrifennwyd y ddogfen hon gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o 'Adroddiad Blynyddol 2020 - 2021'

Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Dogfen hawdd ei deall yw hon. Ond efallai y byddwch dal angen cymorth i'w darllen. Gofynnwch i rhywun rydych yn ei adnabod i'ch helpu chi.

Gallai geiriau mewn ysgrifen glas trwm fod yn anodd i'w deall. Gallwch wirio beth mae'r geiriau mewn glas yn eu golygu ar dudalen 11.

Lle mae'r ddogfen yn dweud fi, mae hyn yn golygu Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â

Cyfeiriad: Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Siambrau'r Farchnad
5-7 Stryd y Santes Fair
Caerdydd, CF10 1AT

Gwefan: www.cenedlaethaurdyfodol.cymru

E-bost: cysylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru

Ffôn: 02921 677 400

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan Hawdd ei Ddeall Cymru gan ddefnyddio Photosymbols. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Cynnwys

Tudalen

Cyflwyniad.....4

Beth wnes i rhwng 2020 a 2021.....6

Yr hyn y byddaf yn ei wneud y flwyddyn nesaf:.....10

Geiriau anodd.....11

Cyflwyniad

Fy enw i yw Sophie Howe. Fi yw Comisiynydd **Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Cymru**. Fy ngwaith i yw gofalu am **genedlaethau'r dyfodol**.

Cenedlaethau'r dyfodol yw'r bobl sy'n byw yng Nghymru yn y dyfodol.

Mae cyfraith am hyn yng Nghymru o'r enw **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**.



Fy ngwaith i yw helpu Llywodraeth Cymru a **chyrff cyhoeddus** yng Nghymru i wneud newidiadau i helpu i wella bywyd yng Nghymru.

Mae **Cyrff Cyhoeddus** yn sefydliadau sy'n rhedeg gwasanaethau i'r cyhoedd. Er enghraifft, y GIG.

Er enghraifft, yr **economi** a'r **amgylchedd**.

Mae'r **economi** yn golygu faint o arian sydd gan Gymru.

Yr **amgylchedd** yw lle'r ydym yn byw. Mae'n cynnwys y tir, y môr, yr awyr, a phopeth sy'n byw ynddo ac arno. Er enghraifft: planhigion, anifeiliaid a physgod.

Gallaf weld bod llawer o waith yn cael ei wneud i sicrhau bod y gyfraith yn cael ei chynnal.

Hefyd, mae sefydliadau'n cydweithio mwy. Ac yn gwneud pethau fel:

- Defnyddio technoleg i wella gwasanaethau.

- Meddwl mwy am yr **amgylchedd**.



Beth wnes i rhwng 2020 a 2021

Fe wnes i gyhoeddi adroddiad o'r enw **Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol**. Roedd hwn yn rhoi cyngor i gyrff cyhoeddus yng Nghymru.

Roedd gen i 4 prif faes i weithio arnynt:

1. Gweithio ar y materion mawr sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol.

Er enghraifft:



- Fe wnaeth helpu Llywodraeth Cymru gyda'u cynllun ar gyfer Covid-19.

- Fe wnaeth eu helpu nhw i feddwl mwy am yr amgylchedd.

- A thrin pobl yn gyfartal ac yn deg.

- Wedi gwneud cynllun am gyllid i helpu Llywodraeth Cymru.

- Cawsom gynnydd mewn cyllid i helpu i ddelio â phroblemau sy'n ymwneud â'r amgylchedd.

- Fe wnes i roi cyngor am Gwricwlwm newydd Cymru 2022.

- Wedi dweud fy nweud am gynllun Cymru ar gyfer trafnidiaeth.

- Wedi helpu Llywodraeth Cymru i feddwl am ddechrau **Incwm Sylfaenol Cyffredinol**.

Mae **Incwm Sylfaenol Cyffredinol** yn golygu y byddai pawb yng Nghymru yn cael rhywfaint o arian sylfaenol, rheolaidd gan Lywodraeth Cymru.

2. Cefnogi cyrff cyhoeddus i ddefnyddio'r gyfraith o'r enw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Rhwng 2020 a 2021, fe wnes i a fy nhîm wneud y canlynol:

- Rhoi cyngor i dros 260 o sefydliadau.

- Rhoi gwybodaeth a hyfforddiant at ei gilydd i helpu i **cyrff cyhoeddus**.

- Helpu **cyrff cyhoeddus** i wneud gwelliannau yn eu cymunedau.

3. Helpu i wneud newidiadau

Rhwng 2020 a 2021, fe wnes i a fy nhîm wneud y canlynol:

- Gofyn i bobl gymryd rhan yn ein gwaith a helpu i wneud newidiadau.

- Mynychu digwyddiadau pwysig.

- Fe wnaethom lansio ein **Maniffesto y Dyfodol**. Roedd hyn yn ymwneud â helpu i sicrhau bod gwleidyddion yn gweithredu ar faterion newid yn yr hinsawdd a chydraddoldeb.

- Wedi rhoi hyfforddiant am arweinyddiaeth i 20 o bobl ifanc.

- Rhoi cyngor i wledydd eraill am ein gwaith.

4. Gwneud yr hyn yr ydym yn sôn amdano

Rhwng 2020 a 2021, fe wnes i a fy nhîm wneud y canlynol:

- Cefnogi staff i gael yr hyn sydd maen nhw ei angen i weithio gartref.

- Gwneud yn siŵr ein bod yn dangos i'r naill a'r llall ein bod yn gwerthfawrogi ein gilydd yn ein tîm.

- Gwirio llesiant ein gilydd yn ein tîm.

Yr hyn y byddaf yn ei wneud y flwyddyn nesaf:

- Parhau i gynghori Llywodraeth Cymru am faterion sy'n ymwneud â Covid-19, yr amgylchedd, cydraddoldeb a phethau eraill.

- Parhau i gefnogi **cyrff cyhoeddus**.

- Dal ati i weithio gyda sefydliadau eraill a chynnwys pobl yn ein gwaith.

- Cynnal mwy o hyfforddiant i bobl ifanc ddod yn arweinwyr y dyfodol.

- Gweithio gyda thîm **Cysylltiadau Rhyngwladol** Llywodraeth Cymru.

- Gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i Gymru a gweddill y byd.

- Dal ati i gefnogi fy nhîm a gwneud newidiadau i'r ffordd rydym yn cael ein rhedeg pan fo angen.

Geiriau anodd

Economi

Mae'r economi'n golygu faint o arian sydd gan Gymru.

Amgylchedd

Yr amgylchedd yw lle'r ydym yn byw. Mae'n cynnwys y tir, y môr, yr awyr, a phopeth sy'n byw ynddo ac arno. Er enghraifft: planhigion, anifeiliaid a physgod.

Cenedlaethau'r dyfodol

Dyma'r bobl sy'n byw yng Nghymru yn y dyfodol.

Cyrff Cyhoeddus

Mae'r rhain yn sefydliadau sy'n rhedeg gwasanaethau i'r cyhoedd. Er enghraifft, y GIG.

Incwm Sylfaenol Cyffredinol

Mae hyn yn golygu y byddai pawb yng Nghymru yn cael rhywfaint o arian sylfaenol, rheolaidd gan Lywodraeth Cymru.